S4C /

# Comisiynydd Chwaraeon

Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon

## Pam ymuno ag S4C?

Mae S4C yn ddarlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus Am Ddim yn y DU. Rydym yn darlledu 7 diwrnod yr wythnos yn y Gymraeg ac mae chwaraeon yn rhan bwysig o'r amserlen gyda dros 550 awr yn cael eu dangos bob blwyddyn.

Yn S4C, rydym yn angerddol dros greu amgylchedd gwaith positif, egnïol a chynhwysol sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd craidd:

Ar dy orau; Balch o S4C; Dathlu Pawb; Cer amdani

Mae hwn yn amser cyffrous i ymuno â'n tîm wrth i ni gyflwyno ein strategaeth cynnwys aml-blatfform newydd. Rydym yn chwilio am unigolyn deinamig, creadigol a brwdfrydig sydd â diddordeb brwd mewn darlledu chwaraeon i ymuno â'n tîm o Gomisiynwyr. Mae'n rôl heriol, sy'n cyffwrdd â bron pob agwedd ar ddarlledu chwaraeon ac mae pob diwrnod yn wahanol.

## Trosolwg o'r Swydd

Chwaraeon yw un o gonglfeini cynnwys S4C ar bob platfform a dyma gyfle cyffrous ymuno gyda'r tîm comisiynu gan arwain ar negydu a sicrhau hawliau chwaraeon o bob math gan gyfrannu at ymestyn at y gynulleidfa led led Cymru. Fel aelod o'r tîm comisiynu, byddwch yn gweithio'n agos gyda'r Prif Swyddog Cynnwys i greu a goruchwylio strategaeth cyhoeddi cynnwys chwaraeon aml-blatfform ar gyfer S4C, gan gyfrannu'n sylweddol at gyflawni ein strategaeth gynnwys.

Byddwch yn cyflwyno ac yn comisiynu ystod eang o gynnwys chwaraeon byw gan gyflenwyr. Byddwch yn cydbwyso rhagoriaeth olygyddol â'r holl ofynion cydymffurfio a chyllidebol, gan sicrhau bod y cynnwys a gomisiynwyd yn cyd-fynd yn strategol â gweledigaeth S4C.

Byddwch yn gyswllt allweddol ac adeiladol â'r sector cynhyrchu annibynnol a darlledwyr eraill, gan gydweithio i nodi cyfleoedd i ehangu darpariaeth chwaraeon S4C, gan dargedu cynulleidfaoedd sy'n defnyddio'r cynnwys hwnnw mewn nifer o fformatau a gwahanol blatfformau cyhoeddi. Byddwch yn gyfrifol am drafod a sicrhau hawliau chwaraeon i ddarlledu a chyd-ddarlledu ystod eang o chwaraeon byw o'r llwyfan rhyngwladol i chwaraeon ar lawr gwlad ar S4C.

Bydd eich cyfraniad a'ch dylanwad fel arweinydd yn hollbwysig wrth i S4C drawsnewid yn gyhoeddwr cynnwys aml-blatfform.

## Beth fyddwch chi'n ei wneud?

Fel Comisiynydd Chwaraeon byddwch yn:

- Comisiynu cynnwys chwaraeon byw, uchafbwyntiau, cynnwys arall sy'n gysylltiedig â chwaraeon a hawliau clipiau digidol ar gyfer rhaglenni Chwaraeon S4C a deunydd aml-blatfform yn unol â strategaethau rhaglenni a chyhoeddi S4C.

- Bod yn arbenigwr hawliau darlledu chwaraeon ac arwain trafodaethau gyda chyrff llywodraethu chwaraeon, clybiau a darlledwyr eraill i sicrhau hawliau darlledu i ystod eang o chwaraeon o safon.

- Cyfrannu at strategaeth gyhoeddi chwaraeon aml-blatfform sy'n datblygu trwy drafod a chydweithio â'r Pennaeth Cynllunio a Rheoli Cynnwys, y Pennaeth Ffrydio a Digidol a'r Pennaeth Gweithrediadau Cynnwys.

- Gweithio gyda swyddogion cyfryngau cymdeithasol i sicrhau bod cyfrifon Chwaraeon S4C yn cynnig gwasanaeth gweladwy ac effeithiol ar draws platfformau'r cyfryngau cymdeithasol.

- Galluogi creadigrwydd a meithrin dull arloesol o ymdrin â chynnwys chwaraeon.
- Cyfarfod yn rheolaidd â chwmnïau annibynnol i drafod syniadau a defnyddio talent ar y sgrin ac oddi ar y sgrin, gan gyfarfod ar leoliad ac ymweld â'u swyddfeydd ac ar y safle mewn darllediadau a stiwdios allanol.

- Cyfrannu at drafodaethau comisiynwyr cynnwys yn benodol ar chwaraeon ac yn ôl yr angen i strategaeth cynnwys S4C yn gyffredinol.

- Darganfod a datblygu lleisiau cyflwyno, adrodd a sylwebu newydd gan sicrhau bod amcanion S4C i adlewyrchu Cymru amrywiol yn cael eu cyflawni trwy ddatblygu talent ar y sgrin.

- Nodi a mynd ar drywydd hawliau darlledu ac ystyried a thrafod cynigion gyda chwmnïau annibynnol yn rheolaidd.

- Ehangu a datblygu darpariaeth chwaraeon byw S4C ar draws gwahanol blatfformau cyhoeddi.

- Sicrhau bod cyflwyno cynnwys chwaraeon S4C yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o amrywiaeth, cost, ansawdd, gwneud y mwyaf o hawliau, ac anghenion ariannu a gweithio gyda chwmnïau cynhyrchu i gyflawni'r gofynion hyn.

- Deall, asesu a defnyddio metrigau data o sawl ffynhonnell yn y diwydiant i sicrhau penderfyniadau gwybodus.

- Nodi cyfleoedd masnachol drwy drosglwyddo gwybodaeth a gweithio gyda'r Prif Swyddog Cynnwys i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer S4C.

- Datblygu a chynnal perthnasoedd gwaith adeiladol gyda chwmnïau cynhyrchu annibynnol, ITV a'r BBC a darlledwyr eraill e.e. Sky Sports a TNT Warner Brothers Discovery, Netflix, Amazon i sicrhau'r gwasanaeth mwyaf creadigol a dychmygus posibl.

- Casglu ac ymgorffori adborth cynhyrchwyr i lywio canfyddiadau adrodd polisi a chyfeiriad i'r Prif Swyddog Cynnwys.

- Arwain ar bob cam o'r broses gomisiynu ar gyfer cynnwys chwaraeon byw ac uchafbwyntiau gan gynnwys hawliau darlledu, penderfyniadau cyllidebol, cyllid, castio (yn unol â pholisi castio S4C), cydymffurfiaeth, cynhyrchu, ôl-gynhyrchu, cyfathrebu a hyrwyddo.

- Arwain ar bob tendr chwaraeon a rheoli perthnasoedd â chwmnïau cynhyrchu a chyflwynwyr a sylwebyddion ar y sgrin.

- Sicrhau bod yr holl gomisiynau cynnwys byw ac uchafbwyntiau yn cael eu cyflwyno ar amser ac o fewn y gyllideb. Cydweithio ag adrannau mewnol ar gyflwyno darllediadau chwaraeon, gan weithio gyda nhw i ddatrys problemau pan fo angen.

- Sicrhau bod cynnwys golygyddol yn cydymffurfio â safonau a chanllawiau golygyddol. Cymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod pob gweithgaredd yn cydymffurfio â pholisi Diogelu, Diogelu Data, Masnachu Teg ac Ymddiriedolaeth Gyfreithiol.

- Cyfathrebu a chydweithio ag adrannau mewnol S4C, fel Cynllunio, Cyfryngau Cymdeithasol, Cyfathrebu, Marchnata a Phartneriaethau, Materion Busnes, Cyfreithiol a Chyllid.

- Cyfleu amcanion darpariaeth chwaraeon S4C i'r sector creadigol a thimau cynhyrchu, a rhoi cyngor ac arweiniad yn ôl yr angen.

- Annog syniadau newydd a chynnwys arloesol a sicrhau a chynnal safon uchel o gynhyrchu.

- Meddu ar ddealltwriaeth gref o gost a safon cynhyrchu cynnwys ac arwain y gwaith o negodi hawliau a chytundebau Chwaraeon gan weithio gyda'r timau Materion Cyfreithiol/Busnes.

- Bod yn gyfrifol am reoli ariannol effeithiol a chydymffurfiaeth ar gyfer pob prosiect ar y cyd ag aelodau o dîm Materion Busnes S4C.

- Cynrychioli S4C mewn fforymau cyhoeddus, cynadleddau, gwobrau a phaneli ac ati.

- Gweithio gyda chydweithwyr ac eraill i sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion corfforaethol ac yn cyflawni rhagoriaeth greadigol.

- Gweithredu'n effeithiol ac yn gyson gydag ymrwymiadau statudol a strategol.

- Cyfrannu at drafodaethau a chyfarfodydd sy'n ymwneud yn benodol â'ch prif gyfrifoldebau unigol ac yn ehangach lle mae budd i S4C yn gyffredinol.

- Bydd disgwyl i chi ymgymryd ag unrhyw waith neu gyfrifoldebau rhesymol eraill sy'n codi o bryd i'w gilydd a dirprwyo ar ran eich Rheolwr Llinell yn ei absenoldeb neu yn ôl yr angen yn y meysydd sy'n gysylltiedig â'ch gwaith.

**Byddwch yn llwyddo yn y rôl hon os:**

- Oes gennych ddiddordeb brwd mewn darlledu chwaraeon gydag arbenigedd mewn hawliau darlledu chwaraeon.
- Gallwch annog diwylliant uchelgeisiol a beiddgar sy'n barod i gymryd risg.
- Mae gennych ddealltwriaeth lawn o gwmpas a phwrpas strategaethau cynnwys, aml-blatfform a chorfforaethol S4C i gyflawni ei hamcanion.
- Byddwch yn gallu datblygu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol a chynhyrchiol gydag unigolion a sefydliadau allanol.
- Rydych chi'n angerddol am greu diwylliant gwaith cynhwysol, egnïol ac iach.
- Gallwch weithio'n annibynnol gyda'r rhyddid i wneud penderfyniadau ond byddwch hefyd yn mwynhau gweithio gyda thîm ehangach i rannu syniadau.
- Rydych chi'n gyfathrebwr cryf yn y Gymraeg a'r Saesneg (llafar ac ysgrifenedig – cymorth gloywi iaith ar gael).

**Byddwch hefyd:**

- Byddwch yn ymwybodol o strategaeth S4C, a sicrhau eich bod yn cymryd cyfrifoldeb personol i ddilyn ein holl bolisïau a gweithdrefnau yn ôl yr angen, sy'n cynnwys gweithio

S4C /

- o fewn canllawiau Iechyd a diogelwch, amrywiaeth a chynhwysiant, diogelu data, canllawiau ariannol ac yn y blaen.
- Cyfrannu mewn ffordd gadarnhaol tuag at ddiwylliant S4C a chyflawni ei strategaeth.
- Cyfrannu at a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.
- Cydweithio â'ch rheolwr llinell a bod yn rhagweithiol wrth reoli a datblygu eich perfformiad eich hun.
- Gwneud yn siŵr eich bod yn gweithio mewn ffordd gadarnhaol, gydweithredol, draws-sefydliadol, sy'n datblygu gwasanaethau gwych i'n gwylwyr ar bob platfform ac yn sicrhau amgylchedd gwaith cadarnhaol, egnïol a chynhwysol sy'n trin pawb â pharch.

**Beth fyddwch chi'n ei gael?**

- Y cyfle i wneud cyfraniad sylweddol i ddiwylliant creadigol a chwaraeon Cymru.
- Y cyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol mewn sefydliad sy'n gwerthfawrogi pobl.
- Gweithio mewn amgylchedd hyblyg yn un o'n swyddfeydd yng Nghymru.
- Mae S4C wedi ymrwymo i dwf personol ei weithwyr, gan gynnig cyfleoedd hyfforddi a datblygu cynhwysfawr i uwchsgilio a hyrwyddo gyrfaoedd. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant mewnol, a rhaglenni datblygiad proffesiynol.
- Mynediad at gyfleoedd unigryw yn y sector cyfryngau gan gynnwys presenoldeb mewn digwyddiadau, trafodaethau panel a diweddariadau mewnol.
- Mae gan weithwyr y cyfle unigryw i gyfrannu at hyrwyddo a chadw’r iaith a’r diwylliant Cymraeg drwy eu gwaith.
- Mae S4C yn cynnig Cynllun Pensiwn Personol Grŵp gyda 10% yn cael ei gyfrannu gan S4C.
- 26 diwrnod o wyliau yn cynyddu'n raddol hyd at 32 diwrnod mewn 9 mlynedd.

Am drafodaeth anffurfiol am y rôl, cysylltwch â'r Prif Swyddog Cynnwys Llion.Iwan@s4c.cymru.

Yn eich cais, gwnewch yn siŵr eich bod yn tynnu sylw at y sgiliau a'r profiad sydd gennych sy'n berthnasol i'r rôl a restrir yn y fanyleb bersonol isod ac sy'n unol â'n gwerthoedd craidd. Rhowch enghreifftiau clir sy'n dangos pam rydych chi'n addas ar gyfer y swydd.

## Manyleb y Person

| Nodwedd | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Profiad** | Ymwybyddiaeth o ddatblygiadau mewn darlledu Chwaraeon a chydnabod cyfleoedd a bygythiadau.<br><br>Ymwybyddiaeth o Strategaeth Cynnwys a Gweledigaeth S4C ar gyfer y dyfodol.<br><br>Profiad o ddarlledu chwaraeon ar draws ystod amrywiol o chwaraeon.<br><br>Profiad o gynhyrchu a goruchwylio cynnwys lefel uchel ynghyd ag ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth, cyllid a chyd-gynhyrchu. | Ymwybyddiaeth neu brofiad o weithredu yn unol ag arfer gorau o fewn y gwasanaeth cyhoeddus<br><br>Profiad o reoli cyllidebau sylweddol. |

| | | |
|---|---|---|
| | Dealltwriaeth a gwybodaeth am y dirwedd chwaraeon yng Nghymru.<br><br>Cysylltiadau perthnasol mewn sefydliadau chwaraeon yn ogystal â chwmnïau cynhyrchu a darlledu.<br><br>Dealltwriaeth o ddoniau perfformio, ysgrifennu a chyfarwyddo ym maes chwaraeon yng Nghymru. | |
| **Sgiliau a Gwybodaeth** | Y gallu i nodi cyfleoedd i ddatblygu amrywiaeth o brosiectau cyffrous.<br><br>Cyfarwydd â'r cynnwys Chwaraeon ar draws pob platfform ar S4C.<br><br>Ymwybyddiaeth o'r dirwedd a thueddiadau darlledu chwaraeon yn y DU ac yn fyd-eang.<br><br>Y gallu i adeiladu ar ddarpariaeth chwaraeon gyfredol S4C ar draws pob platfform.<br><br>Y gallu i adnabod a chydweithio â'r sector annibynnol a chynhyrchwyr unigol i hyrwyddo a datblygu syniadau, talent a sgiliau.<br><br>Y gallu i weithio'n gadarnhaol gyda chydweithwyr, cynhyrchwyr a chleientiaid allanol.<br><br>Sgiliau cyfathrebu a thrafod rhagorol.<br><br>Sgiliau trefnu da a'r gallu i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i wahanol ofynion ac ymholiadau.<br><br>Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig rhagorol yn y Gymraeg a'r Saesneg.<br><br>Syniadau creadigol am gynnwys, gwthio syniadau a'r gallu i'w gwireddu.<br><br>Gweledigaeth ar sut i adnabod a meithrin talent newydd.<br><br>Dealltwriaeth o gyfathrebu digidol a'r gallu i gydnabod a deall natur a dyheadau'r gynulleidfa ar gyfer gwasanaethau cynnwys traddodiadol, digidol ac aml-blatfform. | Profiad o reoli a thrafod Hawliau Chwaraeon.<br><br>Ymwybyddiaeth o ganllawiau cydymffurfio S4C ac Ofcom a'r fframwaith rheoleiddio sy'n gysylltiedig â chynnwys. |

S4C /

| | | |
|---|---|---|
| | Barn olygyddol gadarn a'r sgiliau i ddarparu adborth clir ac arbenigol yn ystod y broses gynhyrchu.<br><br>Sgiliau cynllunio da.<br><br>Sgiliau rhyngbersonol cryf.<br><br>Sylw rhagorol i fanylion a chywirdeb.<br><br>Y gallu i weithio mewn modd hyblyg a chadarnhaol. | |
| **Nodweddion Personol** | Gweithredu fel rhan o dîm a chynnig arweiniad.<br><br>Y gallu i weithio gyda staff ar bob lefel.<br><br>Gallu gweithio'n annibynnol.<br><br>Y gallu i wneud penderfyniad effeithiol wrth weithredu'n brydlon o dan bwysau.<br><br>Y gallu i rwydweithio'n effeithiol.<br><br>Diddordeb cryf mewn materion Cymreig a'r diwydiannau teledu a chreadigol.<br><br>Yn gallu datrys problemau.<br><br>Dealltwriaeth ac ymrwymiad i strategaeth a pholisi amrywiaeth a chynhwysiant S4C.<br><br>Dangos Gwerthoedd ac Ymddygiadau sy'n unol â gwerthoedd S4C.<br><br>Parodrwydd i weithio'n hyblyg gan gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau. | Trwydded Yrru Ddilys |

## Manylion eraill

**Lleoliad:** Caerfyrddin / Caerdydd / Caernarfon (o leiaf 3 ddiwrnod yn y swyddfa)

**Cyflog:** Cyflog cystadleuol yn ddibynnol ar sgiliau a phrofiad. Bydd y cyflog dim llai na £70,000 y flwyddyn. Mae croeso i chi gysylltu â thîm Pobl a Diwylliant ar pobl@s4c.cymru am rhagor o fanylion am amodau a thelerau'r swydd.

**Cytundeb:** 4 blwyddyn yn y lle cyntaf

**Oriau gwaith:** 35.75 yr wythnos. Oherwydd natur y swydd, disgwylir hyblygrwydd, gan gynnwys gweithio tu allan i oriau swyddfa, ar rai penwythnosau a gwyliau banc.

**Cyfnod prawf:** 3 mis

S4C /

| | |
|---|---|
| **Gwyliau:** | Yn ychwanegol i'r gwyliau banc statudol, bydd gennych hawl i 26 diwrnod o wyliau. Os ydych yn cael eich cyflogi yn rhan amser byddwch yn derbyn cyfran pro rata o'r gwyliau. |
| **Pensiwn:** | Mae hawl gan staff cyflogedig ymuno â Chynllun Pensiwn Personol Grŵp yn ddarostyngedig i delerau unrhyw gynllun sydd mewn bodolaeth ac a ddiwygiwyd o dro i dro. Os byddwch yn aelod o’r Cynllun Pensiwn Personol Grŵp, bydd S4C yn cyfrannu 10% o’ch cyflog sylfaenol i’r Cynllun. Disgwylir i chi gyfrannu 5%. |
| **Teithio:** | Bydd teithio rhwng swyddfeydd, ar ymweliadau ac i ddigwyddiadau yn rhan o’r swydd, fel rheol o fewn y Deyrnas Unedig. |

**Ceisiadau**

Dylid anfon ceisiadau erbyn **9.00 y bore, Dydd Llun, 6 Gorffennaf 2026** at pobl@s4c.cymru neu Pobl a Diwylliant, Canolfan S4C, Yr Egin, Caerfyrddin, SA31 3EQ.

Nid ydym yn derbyn CV.

***O ystyried natur y rôl hon, rydym yn ymwybodol o ddigwyddiadau mawr y calendr chwaraeon dros y misoedd nesaf. Felly, ein bwriad ar hyn o bryd yw cyrraedd rhestr fer yn fuan ar ôl y dyddiad cau, gyda cyfweliadau wedi’u cynllunio ar gyfer canol mis Gorffennaf, ac rydym yn annog ceisiadau cynnar. Fodd bynnag, rydym yn canolbwyntio ar ddod o hyd i’r unigolyn cywir ar gyfer y rôl ac mae’n bosibl y bydd angen addasu’r amserlen os bydd angen*.**

Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

**Defnyddio AI**

Os ydych chi’n dewis defnyddio AI neu offer tebyg, gwnewch yn siŵr bod eich ymatebion yn fanwl gywir, yn onest ac yn adlewyrchu’ch profiad a’ch geiriau eich hun. Gall ceisiadau nad ydynt yn wreiddiol neu sydd wedi’u cynhyrchu gan AI gael eu gwrthod.

Yn ystod y cyfweliad, ni chaniateir defnyddio AI nac offer recordio, oni bai bod hynny wedi’i gytuno ymlaen llaw ar sail hygyrchedd. Gall unrhyw dystiolaeth o ddefnydd heb ganiatâd arwain at dynnu’ch cais yn ôl.

**Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth**

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, amgylchiadau teuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr amser llawn neu ran-amser, crefydd, safbwynt gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd ar iaith (heblaw lle bo’r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol i’r swydd) neu wahaniaeth amherthnasol arall ac mae’n ymroi i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol.

Mae S4C yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan grwpiau o bobl sydd wedi’u tangynrychioli, gan gynnwys grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ag

anableddau.  Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn berthnasol a phenodir ar sail teilyngdod.